Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth



# Dirprwyo ac atebolrwydd

**GWYBODAETH YCHWANEGOL I GOD Y CYNGOR NYRSIO A BYDWREIGIAETH**




# Cyflwyniad

Cyn bo hir, y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth fydd yn rheoleiddio nyrsys cyswllt, yn ogystal â nyrsys a bydwragedd. Rydym yn cynnig y bydd nyrsys cyswllt yn cynnal yr un Cod â nyrsys a bydwragedd – rydym yn ymgynghori â phobl ynglŷn â hyn a gallwch ei ddarllen.

Mae angen newid ein deddfwriaeth fel y gallwn reoleiddio proffesiwn newydd. Pan fydd hynny wedi'i gwblhau, rydym yn gobeithio agor rhan newydd yn ein cofrestr ym mis Ionawr 2019 ar gyfer nyrsys cyswllt.

Rydym wedi clywed wrth nyrsys a'r rheini sy'n hyfforddi i fod yn nyrsys cyswllt y byddent yn croesawu cymorth i ddeall beth mae rheoleiddio nyrsys cyswllt yn ei olygu iddyn nhw pan fyddant yn gweithio gyda'i gilydd. Rydym wedi paratoi'r deunydd yma i helpu pobl i feddwl ynglŷn â sefyllfaoedd pan fyddan nhw'n dirprwyo tasgau neu'n cael tasgau i'w gwneud gan gydweithwyr.

# Diffiniadau

- Mae dirprwyo yn cael ei ddiffinio fel trosglwyddo awdurdod i unigolyn cymwys i berfformio tasg benodol mewn sefyllfa benodedig.
- Atebolrwydd yw'r egwyddor bod unigolion a sefydliadau yn gyfrifol am eu gweithredoedd ac efallai y bydd angen egluro'r gweithredoedd hynny wrth eraill.

Mae dirprwyo tasgau o un unigolyn i'r llall yn digwydd yn aml ym mhob lleoliad iechyd a gofal.

**Gall dirprwyo gweithgaredd ddod o:**

- un gweithiwr iechyd cofrestredig i'r llall.
- gweithiwr iechyd cofrestredig i aelod o staff sydd ddim yn cael ei reoleiddio.
- Person cofrestredig neu ddi-gofrestredig i ofalwr neu aelod o'r teulu

Fel gweithwyr iechyd cofrestredig, mae nyrsys a bydwragedd yn atebol am bob agwedd o'u harferion gwaith, gan gynnwys atebolrwydd am yr hyn maen nhw'n dewis dirprwyo, a chytuno, neu beidio, i gyflawni gweithgareddau sydd wedi'u dirprwyo iddyn nhw. Bydd hyn hefyd yn berthnasol i nyrsys cyswllt.

# Beth mae'r Cod yn ei ddweud am ddirprwyo?

Mae Cod y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth yn nodi disgwyliadau pobl ar ein cofrestr pan fyddant yn dirprwyo i eraill. Mae'r gofynion hyn yn berthnasol, waeth pwy mae'r gweithgaredd yn cael ei ddirprwyo iddo. Gall fod yn weithiwr iechyd cofrestredig arall, yn gydweithiwr nad yw'n gofrestredig, neu'n glaf neu'n ofalwr.

- ond yn dirprwyo tasgau a dyletswyddau sydd o fewn sgôp a gallu'r person arall, gan wneud yn siŵr eu bod yn deall y cyfarwyddiadau'n llawn.
- sicrhau bod pawb sy'n cael eu dirprwyo i gyflawni tasgau yn cael eu goruchwylio a'u cefnogi'n ddigonol er mwyn iddynt allu darparu gofal diogel a thosturiol.
- cadarnhau bod canlyniad unrhyw dasg a ddirprwyir i rywun arall yn bodloni'r safonau angenrheidiol.

## Beth mae hynny'n ei olygu yn ymarferol?

Os ydych yn dirprwyo tasg, eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau bod:

- dirprwyo ddim yn niweidio buddiannau pobl yn eich gofal
- y dasg o fewn sgôp a gallu'r person arall
- mae'r person rydych chi'n dirprwyo'r dasg iddynt yn deall ffiniau eu gallu eu hunain
- mae'r person rydych chi'n dirprwyo'r dasg iddynt yn deall y dasg
- mae'r person rydych chi'n dirprwyo'r dasg iddynt yn glir ynglŷn â'r amgylchiadau lle mae'n rhaid iddyn nhw gyfeirio nôl atoch chi
- camau rhesymol yn cael eu cymryd i nodi unrhyw risgiau ac a oes angen unrhyw oruchwyliaeth
- camau rhesymol yn cael eu cymryd i fonitro canlyniad y dasg a ddirprwywyd.

## Dirprwyo'n ddiogel o nyrsys i nyrsys cyswllt

Gofynnwyd i ni os byddai rheoleiddio nyrsys cyswllt yn newid unrhyw beth ynglŷn ag atebolrwydd a dirprwyo yn y dyfodol.

O ran dirprwyo gweithgareddau i nyrsys cyswllt, gall nyrsys (ac eraill) fod yn hyderus y bydd nyrsys cyswllt yn:

- bodloni safonau medrusrwydd y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth ar gyfer nyrsys cyswllt
- cynnal a bod yn ymwybodol o'r un Cod Proffesiynol â nyrsys a bydwragedd (yn amodol ar yr ymgynghoriad)
- ailddilysu bob tair blynedd, gan roi tystiolaeth o'u gallu parhaus i ymarfer yn ddiogel ac yn effeithiol.

Dylai nyrsys hefyd fod yn ymwybodol bod safonau medrusrwydd nyrsys cyswllt yn nodi'r wybodaeth a'r sgiliau angenrheidiol er mwyn ymuno â'r adran nyrsys cyswllt ar y gofrestr. Fel gweithwyr proffesiynol eraill, gall nyrsys cyswllt ddatblygu sgiliau ychwanegol, a gall darparwyr iechyd a gofal gael polisïau a strwythurau llywodraethu lleol er mwyn cael staff sydd wedi'u hyfforddi'n briodol i gynnal triniaethau ychwanegol. Yn y dyfodol, dylai nyrs sy'n dirprwyo i nyrs gyswllt fod yn gyfarwydd â:

- safonau medrusrwydd y nyrs gyswllt
- unrhyw gymwyseddau ychwanegol sydd wedi'u cyflawni gan y nyrs gyswllt sy'n derbyn y dasg a ddirprwywyd
- unrhyw ganllawiau cenedlaethol ynglŷn ag adleoli nyrsys cyswllt
- polisïau a gweithdrefnau lleol a allai alluogi'r nyrsys cyswllt i gynnal triniaethau ychwanegol os ydynt wedi'u hyfforddi ac yn gymwys i wneud hynny.

# Gofynion Cod y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth o ran derbyn gweithgareddau sydd wedi'u dirprwyo[1]

Mae Cod y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth yn nodi cyfrifoldebau pobl ar ein cofrestr pan fyddant yn derbyn tasg sydd wedi'i dirprwyo. Mae'n nodi bod rhaid i nyrsys a bydwragedd (a nyrsys cyswllt yn y dyfodol), fel sy'n briodol:

- wneud yn siŵr nad effeithir ar ddiogelwch y claf na diogelwch y cyhoedd. Rydych chi'n gweithio o fewn ffiniau eich gallu, gan arddel eich 'dyletswydd ddidwyll' broffesiynol, a chodi pryderon ar unwaith pan fyddwch yn dod ar draws sefyllfaoedd sy'n peryglu diogelwch cleifion a diogelwch y cyhoedd.
- gwneud atgyfeiriad amserol i ymarferydd arall pan fo angen gweithredu, gofal neu driniaeth.
- gofyn am help gan weithiwr iechyd a gofal proffesiynol cymwys a phrofiadol i gynnal unrhyw weithred neu driniaeth sydd y tu hwnt i ffiniau eich gallu.
- cwblhau'r hyfforddiant angenrheidiol cyn dechrau rôl newydd.

# Goblygiadau gofynion y Cod o ran derbyn tasgau sydd wedi'u dirprwyo

- Os ydych ar gofrestr y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, a bod rhywun yn dirprwyo agweddau o driniaeth a gofal i chi, eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau eich bod:
- yn deall y dasg ac yn gallu ei chyflawni'n ddiogel
- o fewn ffiniau eich gallu
- yn deall eich rôl wrth wneud penderfyniadau ynglŷn â'r gofal neu'r driniaeth o dan sylw
- yn glir ynglŷn â disgwyliadau'r cydweithiwr sydd wedi dirprwyo'r driniaeth neu'r gofal i chi a'r amgylchiadau lle dylech roi diweddariadau iddyn nhw a/neu fynd â'r mater ymhellach.

[1] Rydym wrthi ar hyn o bryd yn ymgynghori ar ein cynnig y dylai Cod y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth fod yn berthnasol i nyrsys cyswllt pan fyddant yn ymuno â'n cofrestr. Rydym wedi cynhyrchu cyflwyniad newydd i'r Cod, ond mae'r safonau sy'n dilyn fwy neu lai yn aros yr un peth.

## Dirprwyo ac atebolrwydd

Pan fydd problemau neu ddigwyddiadau yn codi:

- Os yw claf mewn perygl o gael niwed neu niwed go iawn, bydd cyflogwr neu ddarparwr gwasanaeth am adolygu penderfyniadau a gweithredoedd y naill ochr er mwyn sefydlu ai achos y digwyddiad oedd dirprwyaeth beryglus a/neu derbyn tasg yn amhriodol. Gall hyn achosi pryderon ynglŷn ag arferion un neu'r ddau barti, yn dibynnu ar yr amgylchiadau.
- Os yw'r digwyddiad yn ddigon difrifol i fod o bryder i'r rheoleiddiwr, a'i fod yn cael ei gyfeirio at y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth i'w archwilio, byddwn yn ystyried a oes achos gan fwy nag un person ar ein cofrestr.

## Crynodeb

O ran dirprwyo, nid yw cyfrifoldebau nyrsys a nyrsys cyswllt yn newid mewn amgylchiadau lle bo'r person sy'n dirprwyo a'r person sy'n derbyn y dasg yn weithwyr iechyd proffesiynol cofrestredig. Fel person proffesiynol cofrestredig, pu'n a ydych yn dirprwyo tasg, neu'n derbyn tasg ddirprwyedig, rydych yn atebol am eich ymddygiad a'ch arferion.

